



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

LEGISLATION COMMITTEE REPORT

DRAFFT

DRAFT

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2001

Y cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol tir amaethyddol ac yn nodi'r swm a fernir yn incwm blynyddol net gan bob uned o'r fath ar gyfer y flwyddyn 12 Medi 2000 hyd 11 Medi 2001 yn gynhwysol. Rhagnodir yr wybodaeth hon at ddibenion darpariaethau olynu yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Rheol Sefydlog 11.5

Yr Atodlen

Er mai at "Christmas turkeys" y cyfeirir yn y cofnod olaf yn adran 1 o'r Atodlen yn y testun Saesneg, nodir mai at "Tyrwyn" yn unig y cyfeirir yn y testun Cymraeg.

A bwrw bod yna arwyddocâd yn y rhagnodiad penodol "Christmas" turkeys, mae yma anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Gan hynny, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau yr hoffai'r Gweinidog eu cyflwyno o dan Reol Sefydlog 11.4, bernir bod hwn yn fater y bydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo.

Y Nodiadau ar yr Atodlen

Ym mharagraff olaf nodyn (2) yn y testun Cymraeg mae "anarddwysáu" ac "estyniad"

wedi'u cyfuno'n un gair, a hynny mewn cyferbyniad â'r paragraffau yn nodyn (2), ac yng Ngorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001, sy'n defnyddio "anarddwysáu". Mae hyn yn cyferbynnu hefyd â'r testun Saesneg sy'n defnyddio "extensification" ym mhob achos.

Gan hynny, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau yr hoffai'r Gweinidog eu cyflwyno o dan Reol Sefydlog 11.4, bernir bod hwn yn fater y bydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo ar y sail ei bod yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol a'i bod yn ymddangos bod yna anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Sylwadau Cyffredinol

Er nad ydynt yn haeddu adroddiad ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5, tynnir sylw at y materion canlynol hefyd.

Y Nodyn Esboniadol

Mae yna atalnod llawn anfwriadol ar ôl "Medi" ym mharagraff cyntaf y testun Cymraeg.

Y Teitl

Mae "(Rhif 2)" wedi'i hepgor o deitl y testun Cymraeg ar frig tudalen 4.

Gwneud y Gorchymyn a dod ag ef i rym

Er bod y gorchymyn wedi'i wneud ar 29 Awst drwy'r weithdrefn weithredol, nid yw'r dyddiadau gwneud a dod i rym wedi'u cwblhau yn y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Y rhaglith

Fel yr esbonnir yn *Statutory Instrument Practice*, dylai Troednodyn (b) ddweud bod "the Minister" yn cael ei ddiffinio yn adran 96(1) fel yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru.

Erthygl 1(4)

Mae'r colon ar ddiwedd y llinell gyntaf wedi'i hepgor yn y testun Cymraeg.

Erthygl 1(4) – "Rheoliad 1251/99 y Cyngor"

Yn Nhroednodyn (ch) ceir "No." lle ceir "Rhif" yn y Troednodiadau eraill.

Erthygl 2(2)

Mae "etc." wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg yn lle "neu gynnyrch amrywiol". Mae'n ymddangos bod y testun Cymraeg wedi dilyn y geiriau a ddefnyddiwyd yn y ddarpariaeth gyfatebol yng Ngorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001 a bod y testun Saesneg yn wahanol i'r geiriau a ddefnyddiwyd yn y Gorchymyn hwnnw.

Y Nodiadau ar yr Atodlen

Yn nhestun Cymraeg y nodyn ar golofn 1 mae "weithgynhyrchu" wedi'i gamsillafu.

J H TURNBULL

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-389

27 Medi 2001